Adroddiad Cyfarfod 13:11:13

Cynhaliwyd cyfarfod Tachwedd yn festri Capel Cysegr, Bethel nos Fercher Tachwedd 13eg gyda Jen y llywydd yn croesawu pawb i'r cyfarfod. Dechreuwyd y noson drwy canu can y mudiad gyda Bet yn cyfeilio.

Llongyfarchwyd Mair Williams ar ddod yn nain unwaith eto wedi i Llinos ac Andrew gael merch, Mali Sion, chwaer i Deio Sion. Hefyd Gwyneth Jones ddaeth yn nain i Non Marie, merch fach i Kim a Dafydd.

Dymuniwyd gwellad buan i John gwr Liz Penparc fu yn ysbyty Gwynedd ar ddau achlysus yn ddiweddar.

Dywedodd Jen iddi osod torch ar ran Merched y Wawr ar y gofeb fore Sul y Cofio.

Dymunwyd yn dda i Ffion Glyn, merch Eirlys Williams sydd wedi cael rhan yn y pantomeim 'Draw Dros y Don' efo Martyn Geraint. Braf iawn oedd clywed fod Ffion wedi dod nol i Gymru i weithio wedi cyfnod yn Llundain.

Braf cael dweud fod 2,320 wedi ymweld a wefan y gangen eto'r mis yma, dipyn mwy na'r mis blaenorol cofiwch mywbethel.org

Penderfyniwyd peidio cael stondin ond cefnogi'r Ffair Grefftau fydd yn y Neuadd Goffa Sadwrn 30 Tachwedd. Mae noson goffi yn y neuadd nos Wener 22 Tachwedd, bydd aelodau pwyllgor y neuadd yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad.

Cytunodd Anne Elis i'w henw fynd mlaen i'r swydd o is Ysgrifennydd Cenedlaethol.

Croesawyd ein gwraig wadd Anna Pritchard, Glasinfryn, gan Jen. Mae hi'n ferch fferm o Glasinfryn ac yn fam i ddau o blant – Cadi (4) a Guto (2).

Yn Manceinion y bu'n gwneud ei chwrs coleg a gwehyddu oedd ei phwnc. Ar ôl ennill Ysgoloriaeth yr Eisteddfod Genedlaethol 2008 treuliodd gyfnod yn Halifax yn arbenigo ymhellach mewn gwehyddu.

Mae'n arlunydd ac yn ddyluniwr, ac mae ei gwaith wedi cael ei arddangos mewn sawl lle gan gynnwys Oriel Tegfryn , Oriel Glyn y Weddw ac yn Tonnau

ym Mhwllheli. Dyma ddywed gwefan Tonnau - "Ganwyd a magwyd Anna Pritchard ar fferm yng Ngwynedd a daeth ei hysbrydoliaeth ar gyfer ei thecstiliau diwerddaraf o sawl harbwr hardd a phrysur o gwmpas ei chatref. Gyda brwdfrydedd amlwg at liw a siapiau amlwg mae'r arlunydd yn ail greu y cynnwrf a deimlir yn y trefi morwrol.

Erbyn hyn mae Anna'n canolbwyntio mwy ar wehyddu gan obeithio defnyddio mwy o wlan Prydeinig yn y dyfodol.

Mae Anna'n mynd i ysgolion lleol i weithio efo plant ar themau gwahanol, bu'n dysgu'r plant i wneud brodwaith i gyd fynd a thema'r ardal leol mewn un ysgol a gwehyddu mewn ysgol arall. Daeth a casgliad o'i gwaith i ni i'w weld. Mwynhaodd pawb weld yr holl waith chwaethus iawn a chael cyfle i brynu . Edrychwn ymlaen i weld mwy o'i gwaith ar wefan mae'n awyddus i'w sefydlu ac mewn ffeiriau crefft yn y dyfodol. Diolchiwyd i Anna a dymuno'r gorau iddi i'r dyfodol gan Gwyneth Jones.

Dymunwyd yn dda i Jen gan Gwyneth fydd yn dathlu penblwydd arbennig iawn ddiwedd y mis.

Diolch i Nora am drefnu'r baned a Glenys a Liz Watkin am helpu, a llongyfarchiadau i Edwina enillodd y raffl.

Mis nesaf byddwn yn dathlu'r Nadolig yn y Copa, yn Llanberis. Os oes unrhyw un ddim wedi dod a'r ffurflen fwyd a'r arian yn ôl i ddod a fo mor fuan a phosibl i Anne, Jen neu Gwyneth.

Aeth tri tîm o'r gangen i gystadlu yn y cwis hwyl cenedlaethol yn y Seiont Manor, Llanrug nos wener 15fed Tachwedd.Tim Penrhosgarnedd oedd yn fuddigol yn Rhanbarth Arfon, gyda Rhiwlas yn ail a Glannau Llyfni yn drydydd. Yn y frwydyr rhwng tri tim Bethel, tim 3 efo Mair Read, Anita, Nan a Liz daeth i'r brig, tim 2 Bethel efo Glenys, Nora, Anne a Jen yn ail a Bethel 1 yn drydydd efo Gwyneth, Beti a Mary. Diolch i Mair Price am y trefniadau trylwyr,i Gwyneth, Ann Lewis, Sharon a Eleri am helpu efo'r marcio. Llongyfarchiadau i Jen ar ennill y raffl ac am fod mor barod i rannu'r tin siocled efo pawb.